# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

## Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 4) (Cymru) 2001

### Y cefndir

Mae'r gorchymyn hwn yn dwyn i rym, ar 1 Gorffennaf 2001, adran 98 o Ddeddf Safonau Gofal 2000 sy'n diwygio Deddf Amddiffyn Plant 1999. Mae'r diwygiadau'n ymwneud â'r amgylchiadau lle caiff awdurdod lleol gyfeirio unigolyn sy'n cael ei gyflogi i ddarparu gwasanaethau ar gyfer plentyn sy'n cael ei ariannu drwy daliadau uniongyrchol, i gael ei gynnwys yn y rhestr a gedwir gan yr Ysgrifennydd Gwladol at ddibenion adran 1 o Ddeddf 1999 (rhestr o unigolion y credir eu bod yn anaddas i weithio gyda phlant). Mae'r diwygiadau a wneir i Ddeddf 1999 gan adran 98 yn ymwneud hefyd â'r amgylchiadau lle mae'n rhaid i awdurdod wirio a yw unigolyn o'r fath wedi'i gynnwys yn unrhyw un o'r rhestrau a grybwyllir yn adran 7(1) o Ddeddf 1999.

Cychwynnwyd adran 98 yn Lloegr ar 1 Ebrill 2001 (OS 2001/1193).

### Rheol Sefydlog 11.5

Nid oes dim pwyntiau wedi'u nodi fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad yn ffurfiol i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 11.5.

Er hynny, tynnir sylw at y ffaith bod angen rhoi sylw i rifau'r paragraffau yn Erthygl 1 yn y testun Saesneg. Mae'r gromfach agoriadol wedi'i hepgor o baragraff (1) ac mae paragraff (2) wedi'i rifo'n anghywir ag (1).

**Mick Bates AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

17 Gorffennaf 2001